O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2709 (Cy. 293)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Wrecsam (Cyffordd 2 – Cyffordd 6), Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011

Gwnaed	*10 Tachwedd 2011*
Yn dod i rym	*21 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Wrecsam (Cyffordd 2 – Cyffordd 6), Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A483 a elwir yn Ffordd Osgoi Wrecsam ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 2 i ganolbwynt y danbont wrth Gyffordd 6.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.